# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 10/07/2018 Siop Siarad am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (CAD) | Gruffydd Williams | Gwynfor Jones | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Sian Hughes | Arfon Hughes | Janice Evans | Glenda Rice | Carys Roberts |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Andrew Owen a Guto Williams. Hefyd wedi derbyn ymddiheuriadau gan Sian Hughes gan ei bod yn ymwybodol y bydd yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion 12/06/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - Rhys Tudur yn croesawu Carys Roberts i'r Cyngor Tref.
   - Sharon Williams yn cyflwyno Arfon Hughes gyda rhodd ar rhan y Cyngor Tref i ddiolch am ei waith arbennig fel cadeirydd dros y blynyddoedd diwethaf.
   - Taliadau (Wedi ei cymeradwyo ac wedi eu nodi isod)

   **Gwasanaethau Ieuenctid**
   Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn llythyr gan Gyngor Gwynedd yn gwahodd y Cyngor Tref i gymryd drosodd rhedeg y Clwb Ieuenctid yn hytrach na'i waredu.
   Cytunwyd ei fod yn angenrheidiol i'r Cyngor tref cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd a Craig ApIago i drafod y mater. Nid yw'r trefniadau sydd y neu le yn ddigonol.
   Mae hyn wedi codi yn hwyr yn y flwyddyn ac nid oedd cynghorau tref na chymuned yn gallu gwneud trefniadau gan fod y PREASEPT wedi ei wneud.
   Awgrymir rhoi gwahoddiad i bawb i'r cyfarfod ond nid oes angen i bawb fynychu. Efallai bydd angen trefnu cyfarfod brys mis Awst i drafod. Bydd hefyd angen gadael i'r ganolfan wybod rhag ofn y byddwn yn colli'r slot yno ar nos Fercher.

5. **Etholiadau**
   Mae un sedd wag yn Nefyn.
   Rydym wedi derbyn cais gan Joan Coppin a Lleucu Fflur. Nodwyd bod y ddau gais yn dra gwahanol ond yn cynnig sgiliau a gwybodaeth wahanol. Yn dilyn trafodaeth helaeth mae'r pwyllgor yn cytuno yn unfrydol i gynnig y sedd i Lleucu Fflur. Bydd y Clerc yn ei hysbysu drwy lythyr a'i gwahodd i bwyllgor mis Medi.
   Diolch i Joan Coppin am eu chais; ac mae'r pwyllgor yn awyddus i Mrs Coppin drio eto pan fydd sedd wag yn Nefyn eto.

6. **Awdit**
   Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn sylwadau gan Gyngor Gwynedd sydd yn nodi nad yw'r cyfrifon yn ddigonol fel ac y mae. Rhian Hughes-Jones wedi gwneud y cyfrifon yn y dull maent ei angen a'i dychwelyd.

Mae'r Archwiliwr mewnol bellach yn hapus hefo'r wybodaeth ac yn gobeithio dychwelyd y gwaith a'r adroddiad cyn diwedd mis Mehefin.
Bydd wedyn angen eu gyrru i'r BDO yr archwiliwr allanol wedi eu ardystio gan y pwyllgor. Bydd angen galw pwyllgor brys I gadw at amserlen dyn.

7. **Traethau**
Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn llythyr a galwad ffôn gan James Seaman mewn ymateb i'r llythyr perchnogion yn amlinellu eu cyfrifoldebau a yrrwyd allan yn ddiweddar. Mae Mr Seaman yn awyddus i ddatrys y problemau sydd yn codi hefo'r cytiau lan y môr. Mae'n cynnig ei fod yn trafod gyda'r perchnogion eraill ac yn trefnu i gyfarfod aelodau o'r Cyngor Tref fel y gellir datrys y sefyllfa. Mae Arfon Hughes, Gruff Williams a Rhys Tudur yn fodlon cyfarfod hefo'r perchnogion.
Mae trafodaethau yn mynd ymlaen hefo Cyngor Gwynedd ynglŷn â diogelwch y traethau. Mae Sian Hughes a Gruff Williams yn cydlynu hefo gwasanaethau Cyngor Gwynedd.
Bydd rhaid trefnu cyfarfod cyhoeddus i'r dyfodol i gael barn y gymuned.

8. **Llwybrau**
Diweddariad - Gruffydd Williams; Fron Olau a Fron Dirion – Perchnogion yn meddwl bod y llwybr yn y lle anghywir, Mae Dewi Owen Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd mewn trafodaethau hefo'r perchnogion.
Gors Geirch – SAC felly rhaid trin y tir yn gywir gan gadw at reoliadau priodol. Bydd ar agor i'r cyhoedd ganol mis Awst.
Sian Hughes – Mae'r gwaith ar Lwybr ysgol Morfa wedi ei ddechrau.
Gwelliannau i lwybrau Morfa Nefyn – Mae Sian Hughes wedi cyfarfod hefo Dewi Owen a pherchnogion tir r dargyfeirio'r llwybr i greu llwybr gwell.
Mae llwybr yr arfordir yn champion ond mae angen barbio ar hyd Lôn Cae Glas.
**Meinciau**
Mae nifer o geisiadau wedi codi ar gyfer gosod mainc. Mae'r pwyllgor yn hapus iawn i'r ymgeiswyr ail osod meinciau sydd eisoes wedi ei dirywio. Mae Arfon Hughes a Rhian Hughes Jones am drefnu hefo'r ymgeiswyr.

9. **Y Ddol**
Dim Diweddariad i gysoni gwybodaeth – anodd mynd ymlaen hefo'r gwaith gan fod sefyllfa draenio'r Ddol yn dal i fynd yn ei flaen.
Nid oes diweddariad gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd.

10. **Siop Siarad**
Arfon Hughes yn diweddaru'r pwyllgor yn dily cyfarfod isbwyllgor Siop Siarad Gweler Atodiad 1
Rhaid datblygu'r adeilad at ddefnydd y gymuned. Bydd angen trafod y les yn gyfarfod mis Tachwedd i gadarnhau costau ar gyfer y PREASEPT

11. **Safle Bws**
Nodwyd gan Gruff Williams bod eisiau gosod amserlen bws ar bolyn yn y safle bws ger Tŷ Doctor, mae'r pwyllgor yn gefnogol i'r hyn ac yn derbyn cynnig i dalu £150.00 tuag at y costau.

12. **Llyfrgell**
Diweddariad gan Sharon Williams – Wedi derbyn anfoneb treth annisgwyl o uchel gan Gyngor Gwynedd. Mae'r hyn yn anfoesol iawn i'r Cyngor Cymuned. Mae hyn wedi dod yn amlwg yn dilyn gwneud y gyllideb ac nid oes arian wedi ei glustnodi ar gyfer talu swm mor uchel.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

Cynigwyd cysylltu hefo Cyngor Gwynedd yn gofyn am ddisgresiwn gan nad yw wedi cynnwys yn y PREASEPT cyn mynd a'r mater at y cyfryngau.

13. **Mynwentydd**
Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn cwyn bod y biniau yn fynwent Morfa Nefyn a Nefyn an orlawn er y biniau newydd. Faint o aml mae'r biniau yn cael eu gwagio? Bydd rhaid mynd yn ol at contract yr contractwyr i gweld beth yw'r drefn.
Mae newidiadau wedi eu gwneud i'r prisiau claddu, ac mae'r pwyllgor yn cadarnhau y newidiadau.

14. **GDPR a Clirio Dogfennau Hanesyddol**
Diweddariad - Rhian Hughes-Jones – Janice Evans wedi ei chofrestru fel y Swyddog Diogelu data.
Bydd Rhian Hughes-Jones yn trefnu dyddiadau dros Awst i glirio Siop Siarad.

15. **Helfa Bodfuan**
Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn nifer o gwynion bod adar Helfa Bodfuan yn creu problem i drigolion ardal Mynydd Nefyn. Nodwyd nad yw'n bosib gadael ffenestri yn agored gan fydd y tŷ yn llawn o ffesantod neu betris. Mae nifer fawr yn cael eu lladd ar y lon hefyd. Cynigwyd gyrru llythyr i'r perchnogion yn nodi'r pryderon gan nad oes dim a ellir ei wneud yn gyfreithlon i ddatrys y sefyllfa. Cynnig symud y radar i ardal anghysbell lle nad ydynt yn achosi trafferthion i drigolion.

16. **Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol**
Diweddariad gan Siân Hughes - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid – Mae Twr 2 angen eu newid, mae'n rhoi'r hawl i ddymchwel dwy sied sinc ac adeiladu dau dŷ ha far y safle. Nid yw hyn yn dderbyniol, mae'r difrod y bydd hyn yn achosi i gefn gwlad yn annerbyniol. Bydd ceisiadau yn dod i mewn a thai haf yn cael eu hadeiladu yn bob man. Cynigwyd i Sian Hughes a Gruff Williams rhoi sylwadau.

17. **Gwefan y Cyngor**
Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Nid yw'r Clerc byth wedi derbyn hawl i fewngofnodi i'r wefan gefnogol er ychwanegu dogfennau na i newid cynnwys.
Mae hyn wedi bod yn bryder ac yn risg i'r cyngor ers peth amser a bydd rhaid symud ymlaen rhyw sut hefo'r wefan. Mae'r BDO eisoes wedi amlygu pryderon yn 2016-17.
Mae Arfon Hughes a Gruff Williams yn mynd i ddilyn fynnu hefo darparwr y wefan eto fel cynnig olaf.

18. **Cefnogol**
Gwybodaeth gan Gruff Williams – Pryderon y we oedd yn codi gweler 17.

**<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**

**C16/1089/42/LL**
Adeiladu adeilad newydd i gynhyrchu a gwerthu hufan ia, ystafell addysgiadol, a chreu mynedfa newydd, parcio a thirlunio
Tir rhan o Fferm Bryn Rhydd, Edern
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0213/42/LL**
Codi modurdy / gweithdy
Gelliwen, Lon Uchaf, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0507/42/LL**
Adeiladu Ty newydd
Tir ger Glascoed, Edern

**C18/0529/42/LL**
Dymchwel ty presennol i lefel llawr slab ac adeiladu ty newydd
Faraway, Lon Golff, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0332/42/AM**
Dymchwel Stablau a codi gwyneb concrid presennol ac adeiladu 2 uned gwyliau ynghyd a tirlunio.
Northen Lights, Lon-tyn-Pwll, Nefyn
**Gwrthwynebu ar sail gôr ddatblygiad, mae'r ffordd yn cael ei ddefnyddio yn aml iawn gan gerddwyr ac yn beryg fel**

**Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Mehefin 2018
2. **SLCC** - Bwletin Mehefin 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Mehefin 2018
4. **Local Council Update** – Mehefin 2018
5. **Llywodraeth Cymru** - Newyddlen draenio cynaliadwy
6. **Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau -** ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol.
7. **Prif Swyddog Cynllunio -** Cyfuno a diwygio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Gorchymyn Datblygu a Ganiateir
8. **Un llais Cymru** - Sesiynau Hyfforddiant Mehefin
9. **Un Llais Cymru -** Cynhadledd Arfer Arloesol 4 Gorffennaf 2018
10. **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru –** Datganiad i'r wasg
11. **Cyngor Iechyd Cymuned -** Datganiad i'r Wasg
12. **Llywodraeth Cymru -** Cylchlythyr Mehefin 2018
13. **Prifysgol Caerdydd –** Gwahoddiad i drafod ymchwil newydd ar dlodi gwledig yng Nghymru.**Un Llanis Cymru -** Manylion am y sesiynau hyfforddi
14. **Llywodraeth Cymru -** Gweithdy 17 Gorffennaf 2018: Mewnwelediad ymarferol ar gyfer CTC a BGC ar gydweithio i helpu i ddarparu cynlluniau llesiant lleol.
15. **Cyngor Gwynedd – Priffyrdd** - Gwaith ffordd
16. **Uned Gofal Plant Gwynedd a** Mon – Pamffledi yw dosbarthu
17. **Un Llais Cymru -** Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru dydd Sadwrn 29ain Medi 2018

**y mae, mi fydd mwy o drafnidiaeth yn gwneud y sefyllfa yn llawer gwaeth.**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Taliadau yw gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Gorffennaf | **£797.57** |
| **Rhian Hughes-Jones –** | |
| Ad-daliad archebu cadeiriau a byrddau i Siop Siarad £513.60 | |
| Ad-daliad archebu biniau i'r mynwentydd £387.77 | **£901.37** |
| **Clif Hughes** – | |
| Taliad 4 contract 2018-19 - £825.00 | |
| Gwaith Ychwanegol 40 £276.00 | |
| Gwaith Ychwanegol 48 £654.60 | **£1755.60** |
| **Mr David Parry** – Gwaith Mynwentydd | |
| Ail daliad Nefyn £833.00 | |
| Ail daliad Morfa Nefyn £166.00 | **£999.00** |
| **ICO** – Swyddog Diogelu Data | **£40.00** |
| **SLCC** – Aelodaeth Blynyddol | **£128.00** |
| **Arfon Hughes** – Paen i baentio Siop Siarad | **£90.00** |
| **Tyddyn Sachau – Potiau Blodau** | |
| 6182 - £124.25 | |
| 6183 - £69.50 | |
| 6181 - £355.00 | **£548.75** |
| **Un Llais Cymru**– Hyfforddiant Cadeirydd | **£40.00** |
| **Eglwys Santes Fair, Morfa** – Cyfraniad | **£1000.00** |
| **Nefyn Foods Ltd** – Rhent cyntaf Siop Siarad | **£780.00** |
| **John Gwynfor Jones** – Torrwr beddi | **£1225.00** |
| **Edward Jones a'i Fab** – Cofrestra Tir | **£18.00** |
| **G Williams** – Gwaith yn mynwent Nefyn (TAW yn unig) | **£321.49** |

**Taliadau wedi eu derbyn**

**Dim**

**Ceisiadau am gyfraniad**

**Dim**

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf:** Clybiau Ieuenctid a Ganolfan Nefyn

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Atodiad 1**

Cyfarfod Is-bwyllgor Siop Siarad, Nos Fawrth 12/07/2018 Siop Siarad Nefyn, am 6yh

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arfon Hughes** | **Gwynfor Jones** | **Andrew Owen** | **Rhian Hughes-jones (Clerc)** |

1. **Ymddiheuriadau**
   Sian Hughes a Rhys Tudur

2. **Datgan Buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Dim

3. **Cofnodion – DIM**
   Dim

4. **Paentio / Murlun**
   Cytunwyd i Andrew Owen fynd yn ei flaen hefo'r gwaith paentio yn Siop Siarad. Mae ieuenctid yr ardal yn awyddus i fynd ymlaen ac efallai creu murlun ar un o'r waliau. Mae Arfon Hughes wedi derbyn caniatâd gan y perchnogion i wneud y gwaith paentio.
   Mae Andrew Owen wedi derbyn 3 pris ar gyfer y paen a chytunwyd i fynd hefo'r pris isaf. Mae Andrew am fynd ymlaen i drefnu'r ieuenctid i lanhau a phaentio.
   Mae'r is-bwyllgor wedi cytuno i dderbyn syniadau am furlun yw cytuno gan y pwyllgor.

5. **Les Siop Siarad**
   Cytunwyd yr y les yn Bwyllgor Cyngor Tref Nefyn a rhoddwyd hawl i'r is-bwyllgor gwneud newidiadau. Mae'r is-bwyllgor yn cytuno dylid gwneud cymal torri allan. Bydd Rhys Tudur yn trefnu hefo'r twrne.
   Mae'r cyngor wedi bod yn talu £1040.00 am storio yn y gorffennol ac yn gwneud cyfraniad i'r ysgolion am ddefnydd ar gyfer cyfarfodydd, £150.00 yr un. Mae hyn yn gyfanswm o £1340. Gyda Rhent Siop Siarad yn £2860.00 lenni (01/06/2018 – 30/04/2019) Gwahaniaeth o £1520.00.

6. **Defnydd**
   Cafwyd trafodaeth helaeth ar ddefnydd Siop Siarad a chytunwyd y gellir eu rhentu i unrhyw fudiad am bris bach. Bydd defnydd o'r gegin fach ar gael hefyd. Mae'n bosib cynnal nifer o nosweithiau llwyddiannus yn Siop Siarad. Mae aelodau'r is-bwyllgor yn hapus i hyrwyddo'r ased yma i'r cyhoedd.
   Bydd yn bosib codi ar Gyngor Gwynedd os yn ei ddefnyddio ar gyfer nosweithiau clwb ieuenctid.
   Mae'r pwyllgor hefyd yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r seler hefyd. Bydd angen asesiad risg penodol. Mae'n ofod mawr defnyddiol a buasai'n bechod eu hanghofio.

**7. Pwrcasu adnoddau**

Mae Rhian Hughes-Jones wedi bod yn edrych ar fyrddau a chadeiriau yw defnyddio ar gyfer pwyllgorau yn Siop Siarad. Mae wedi darparu nifer o ddewisiadau, mae'r pwyllgor wedi penderfynu ar 4 bwrdd sydd yn plygu a 15 cadair stacio. Bydd y rhain yn ddefnyddiol i unrhyw ddigwyddiad yn Siop Siarad.

Bydd angen cael arwydd newydd ar flaen Siop Siarad, bydd Rhian Hughes Jones yn edrych i mewn i hyn.

Bydd Rhian Hughes-Jones yn gwneud yn siŵr bod y Siop Siarad wedi ei gynnwys yn yswiriant y Cyngor Tref gyda Zurich.

Buasai'n ddefnyddiol i edrych ar ffurf i wresogi'r adeilad, mae Gwynfor Jones ac Arfon Hughes am edrych i mewn i wresogyddion storio.

Mae Gruff Williams eisoes wedi cytuno i edrych ar gael Wi-Fi I'r Siop Siarad. Mae'r Cyngor Tref eisoes yn talu am linell ffon.